



Annwyl Gwsmer,

Cau Gwasanaeth Dros Dro

**Allgymorth Llanfaethlu – Tŷ'r Siop Goffi, Llanfaethlu, Caergybi, LL65 4NP ac
Allgymort Llanddaniel-fab – Yr Efail, Llanddaniel-fab, Y Gaerwen, LL60 6ES**

Rydym yn ysgrifennu i roi gwybod i chi fod y postfeistr o Swyddfa Bost Llanfachreth, yn anffodus, wedi penderfynu ymddiswyddo o redeg gwasanaethau Allgymorth Llanfaethlu a Llanddaniel-fab.

Fel canlyniad, bydd gwasanaeth Allgymorth Llanddaniel-fab yn cau ddydd Llun 27 Chwefror 2023 am 13:00 a bydd gwasanaeth Allgymorth Llanfaethlu yn cau ddydd Mawrth 28 Chwefror 2023 am 12:00.

Mae Swyddfa'r Post yn wynebu cyfnod arbennig o anodd, yr un fath â mân-werthwyr eraill y stryd fawr. Mae effaith costau cynyddol, chwyddiant a chyfyngiadau ar ein cyllido gan Lywodraeth yn golygu er y byddwn wastad yn ystyried ailagor canghennau sydd yn cau, ni allwn ymrwmo i wneud hynny bob tro. Byddwn yn gwerthuso darpariaeth gwasanaeth Swyddfa'r Post yn yr ardal a gwneir pob ymdrech i liniaru'r effaith y caiff y cau hwn ar y gymuned leol. Rydym eisiau gwneud yn siŵr fod cwsmeriaid yn gallu cael hyd i'n gwasanaethau a chynhyrchion o ansawdd ar draws rhwydwaith Swyddfa'r Post, ac mae'n bwysig fod unrhyw wasanaeth yn y dyfodol yn gynaliadwy i'r sawl sy'n ei redeg ac i Swyddfa'r Post Cyfyngedig. Rydym wedi ymrwmo i gynnal ein meini prawf o ran hygyrchedd drwy wneud yn siŵr fod 99% o boblogaeth y DG o fewn tair milltir i Swyddfa Bost a bod 90% o fewn milltir. Byddwn yn dal i adolygu'r sefyllfa hon a byddwn yn rhoi blaenoriaeth i'r ardaloedd hynny sydd â'r angen mwyaf.

Hoffem ymddiheuro am unrhyw anhwylustod oherwydd y cau dros dro. Gobeithiwn y bydd ein cwsmeriaid yn dal i ddefnyddio gwasanaethau Swyddfa'r Post. Mae'r manylion am ganghennau eraill Swyddfa'r Post yn yr ardal i'w gweld isod.

- Swyddfa Bost Y Gaerwen, 1 Tyn Gamfa, Lôn Groes, Y Gaerwen, LL60 6DD
- Swyddfa Bost Llanfairpwllgwyngyll, Ffordd Caergybi, Llanfairpwllgwyngyll, LL61 5SX
- Swyddfa Bost Mynyddmechell, Fron-deg, Mynyddmechell, Amlwch, LL68 0TG
- Swyddfa Bost Llanfachreth, Yr Hen Swyddfa Bost a Siop Gyfleustra, Llanfachreth, Caergybi, LL65 4UL

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am hyn, byddwch cystal ag ysgrifennu ataf drwy'r Tîm Ymgynghori Cenedlaethol yn y cyfeiriad a nodir ar ddiwedd y llythyr. Sylwch na fydd eich sylwadau'n cael eu cadw'n gyfrinachol oni fyddwch yn gofyn i ni wneud hynny wrth nodi "Cyfrinachol / In Confidence" yn glir arnyn nhw.

Byddai unrhyw newidiadau i ddarpariaeth gwasanaeth yn y dyfodol yn cael eu trafod yn unol â'n Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned. Mae detholiad sy'n ymwneud â Hysbysu ar ddiwedd y llythyr hwn.

Byddwn yn gosod posteri yn y gangen i roi gwybod i gwsmeriaid.

Os ydych yn gynrychiolydd lleol, byddai o gymorth pe gallech rannu'r wybodaeth hon drwy eich sianeli cyfryngau cymdeithasol a hefyd ag unrhyw grwpiau neu sefydliadau lleol yn y gymuned – er enghraifft ar hysbysfyrddau, ymhlith elusennau lleol ac mewn meddygfeydd – er mwyn helpu ein cwsmeriaid a'ch etholwyr chi i ddeall yr hyn sy'n digwydd i'r Swyddfa Bost yn y gymuned leol. Os hoffech gael cyflenwad o bosteri, rhowch wybod i ni.

Os ydych yn gynrychiolydd lleol, byddwn yn ysgrifennu atoch eto unwaith y bydd gennym unrhyw newyddion am ein cynlluniau ar gyfer darparu gwasanaeth yn y dyfodol.

Yr eiddoch yn gywir,

Carol Williams

Carol Williams
Arweinydd Darpariaeth Rhwydwaith

Sut i gysylltu â ni:

comments@postoffice.co.uk
postofficeviews.co.uk
FREEPOST Your Comments

Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned ynghylch newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post (detholiad)

Mae fersiwn llawn o'r ddogfen hon ar gael ar ein Canolfan Ymgynghori - postofficeviews.co.uk

Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr ac i'w cefnogi wrth i ni wneud newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post. Dilynir yr egwyddorion a ganlyn wrth gyfathrebu am newidiadau i'ch cangen Swyddfa'r Post leol.

Byddwn yn **Hysbysu** – pan fyddwn yn rhoi gwybod i gwsmeriaid am newidiadau ynghylch:

- Oriau agor
- Cau dros dro¹/ ymyriad dros dro i wasanaeth
- Ailagor cangen a gaewyd dros dro yn yr un safle
- Agor cangen newydd nad yw'n ymwneud â changen a gaewyd yn flaenorol
- Lleoliad yn cael ei ddefnyddio gan Swyddfa Bost Symudol mewn cymuned

Byddwn yn gosod poster yn y gangen (neu gerllaw os yw hynny'n briodol) er mwyn hysbysu cwsmeriaid am y newidiadau uchod, gan roi pedair wythnos o rybudd. Pan nad oes modd rhoi pedair wythnos o rybudd, byddwn yn rhoi rhybudd cyn gynted ag y gallwn. Ar gyfer pob cau dros dro, byddwn yn cynnwys manylion am y Swyddfeydd Post eraill agosaf a'n llinell gymorth / ffôn testun i gwsmeriaid.

Cafodd yr Egwyddorion hyn eu cytuno â Chyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon, sef corff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr.

Beth i'w wneud os ydych yn teimlo na ddilynwyd yr Egwyddorion hyn:

Cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda, fel y gallwn ymchwilio i'ch cwyn. Yn ein hateb byddwn yn esbonio a ydym yn credu ein bod wedi dilyn ein Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned a chewch y manylion cyswllt ar gyfer y corff gwarchod defnyddwyr priodol (Cyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban neu Gyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon) os nad ydych yn fodlon â'n hymateb. Bydd y corff gwarchod yn gwneud asesiad annibynnol i ganfod a ydym wedi dilyn y broses Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned (yn hytrach na'r penderfyniad ei hun) ac yn argymhell unrhyw weithredu ynghylch y cwyn.

Postofficeviews.co.uk.

Comments@postoffice.co.uk

FREEPOST Your Comments

Ffoniwch: 03452 66 01 15

Ffôn Testun: 03457 22 33 55

¹ Rhoddwn ddiweddariad i gynrychiolwyr etholedig lleol os nad yw statws y gangen a gaewyd dros dro wedi newid ar ôl 12 mis.

Gall fod nifer fach o achosion pan, oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth, nad oes gennym unrhyw ddewis ond i gau cangen mewn lleoliad penodol yn barhaol. Mewn achosion o'r fath byddwn yn ceisio adborth ynghylch darparu gwasanaeth Swyddfa'r Post amgen yn yr ardal.

Rhoddwn wybod i gynrychiolwyr etholedig lleol yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r Aelod Seneddol, Senedd yr Alban, Senedd Cymru, neu Gynulliad Gogledd Iwerddon, Prif Weithredwr yr Awdurdod Lleol, Cyngorwyr Ward, Y Cyngor Cymuned neu'r Cyngor Plwyf, elusennau dethol, Cyngor ar Bopeth lleol, Age UK, Disability Action Gogledd Iwerddon a Rhwydwaith Cymunedau Lleol Gogledd Iwerddon. Anogir yr uchod i rannu pob gwybodaeth â grwpiau a sefydliadau lleol a allai, yn eu barn, fod a diddordeb gweithredol mewn newidiadau i'w Swyddfa Bost leol.